

Adroddiad Blynyddol Menter Iaith Sir Conwy

Ebrill 2005 – Mawrth 2006

Rhagair

Bu'n flwyddyn o feithrin cynlluniau cyfredol ac o fraenaru tir newydd i Fenter Iaith Conwy. Rydym yn teimlo ein bod wedi llwyddo i gynnal y momentwm ddaeth i'r Fenter yn sgil symud i'n swyddfa newydd yng Ngorffennaf 2004.

Mae Cynllun Gweithredu Ardal Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Popeth Cymraeg a Chyfieithu Cymunedol Conwy'n parhau i rannu swyddfa efo ni. Mae'r swyddog oedd yn gweithio i TWF a Cyfrwng wedi gadael, daeth Cyfrwng i ben a newidiodd y swyddog ei gwaith. Rydym yn cynnal trafodaethau gyda Golygfa Gwydyr (cwmni cydweithredol lleol) i weld os hoffent gael gofod yn y swyddfa. Hefyd bydd ein Swyddog Ymwybyddiaeth Treftadaeth Iaith (yn sgil cais llwyddiannus i'r Lotri) yn gweithio o'r swyddfa o fis Mai ymlaen.

Rydym wedi llwyddo i sefydlu Pwyllgor Ardal ar gyfer Penmaenmawr a Llanfairfechan dan yr enw Pwyllgor Pen-Llan. Canlyniad uniongyrchol i hyn yw bod gan staff Menter Iaith Conwy raglen waith manwl yn yr ardal sy'n cyd-fynd efo'r prif feysydd gweithredu.

Strwythur Staff

Cafwyd 1 penodiad newydd (ar ôl i'n cyfieithydd cymunedol adael penodwyd un newydd) yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn a diogelwyd arian i gyflogi aelod ychwanegol o staff o fis Mai (Swyddog Ymwybyddiaeth Treftadaeth Iaith). Llwyddwyd hefyd i ddiogelu'r swyddi isod yn ystod y cyfnod hwn. Mae bwriad i gyflogi mwy o staff - y manylion i'w gweld yn ein Dogfen Strategaethol.

Er ein bod wedi sicrhau rhywfaint o arian ychwanegol i gynllun Gwyliau Cymraeg a chyllid i baratoi adroddiad gan gwmni ymgynghorol ar werth y cynllun, yr ydym dal heb sicrhau cyllid tymor hir i'r cynllun y tu hwnt i Awst 2006.

Swyddog Datblygu Meirion Davies 37 awr Mehefin 01

Swyddog Maes Deiniol Thomas 37 awr Mehefin 02

Swyddog Gweinyddol Teleri Hughes 15 awr Mai 03

Swyddog Gwyliau Cymraeg Carys Dafydd 37 awr Awst 03

Swyddog Cyfieithu Cymunedol Dafydd Chilton 37 awr Tachwedd 05

Swyddog Datblygu M.I.C. Iwan Williams 15 awr Mehefin 04

Cynlluniau Ardal Bwrdd yr Iaith.

Bu cydweithio cyson gyda Swyddog y Cynllun Gweithredu. Mae cael swyddog penodol i ddelio ag ardal Llanrwst wedi galluogi'r fenter i ddechrau cynnal gweithgareddau ledled y Sir.

Cyllid 05 – 06

£65,000 Bwrdd yr Iaith Gymraeg

£7,600 CAE - ar gyfer cychwyn cynhyrchu deunyddiau i gynllun Gwyliau Cymraeg.

£7,600 Cronfa Datblygu Gymdeithasol Cyngor Sir Conwy. Gwyliau Cymraeg.

£18,600 Cronfa Datblygu Gymdeithasol Cyngor Sir Conwy. Cyfieithu Cymunedol.

£5,000 Arian i Bawb, arian i ddatblygu sgiliau cyfieithu mudiadau gwirfoddol.

£5,000 Cyngor Sir Conwy, arian craidd.

£ 2,000 Adran Celf Cyngor Conwy, Llanast Llanrwst.

£ 1,500 Cynllun Ardal Llanrwst, Llanast Llanrwst.

£ 3,000 Cyngor y Celfyddydau, Llanast Llanrwst

£ 700 Busnesau Tref Llanrwst, Llanast Llanrwst.

£ 750 Cist Gymunedol Conwy (Sportslot)

£ 435 Heddlu'r Gogledd, Sesiynau Sgwrs ym Mhencadlys yr Heddlu

Cynlluniau Gwireddu Strategaeth

Prosiect Busnes

Dosbarthwyd deunyddiau Iaith Gwaith yn nhrefi Penmaenmawr, Llanfairfechan, Llanrwst a Betws y Coed. Rydym hefyd yn parhau i oruchwylio ceisiadau cynllunio ac yn anfon gwybodaeth ynglŷn â grantiau i'r rheiny sydd am godi arwyddion dwyieithog. Hyn i gyd yn ogystal ag ymateb i ymholiadau a dderbynnir yn y swyddfa.

Mae'r fenter yn parhau i gynnal cyrsiau ymwybyddiaeth iaith i'r rhai hynny sy'n cychwyn busnes drwy Antur Conwy.

Cymraeg yn Gyntaf.

Cynhaliwyd wythnos Cymraeg yn Gyntaf yn ardal Dyffryn Conwy yn ystod wythnos olaf Mis Hydref.

Gwyliau Cymraeg.

Llwyddwyd i ddenu £10,000 o'r partneriaid twristiaeth rhanbarthol ar gyfer cwblhau adroddiad ar y cynllun.

Sector Gwirfoddol

Cyfieithu Cymunedol

Llwyddwyd i ddenu £11,000 i gyllido'r cynllun gan gronfa S.D.S. Cyngor Sir Conwy. Mae'r cynllun wedi llwyddo i ddenu gweddill ei hincwm drwy fasnachu. Penodwyd Cyfieithydd newydd (Dafydd Chilton) ar ôl ymadawiad ein Cyfieithydd Cyntaf (Alwen Vaughan). Nid oedd angen hyfforddiant cyfieithu ysgrifenedig ar Dafydd gan ei fod eisoes wedi gweithio fel cyfieithydd proffesiynol. Roedd angen peth cymorth gyda chyfieithu ar y pryd.

I gynyddu swm y gwaith yr oedd modd i'r cynllun ei drin rydym yn defnyddio 15 cyfieithydd dan hyfforddiant. Mae Dafydd yn gweithredu fel mentor, yn golygu eu gwaith ac yn eu cynghori ynghylch gwella'u cyfieithu. Mae'r cyfieithwyr yn derbyn yr un tal ag y mae'r gwasanaeth yn ei godi ar y cwsmeriaid.

Mae'r cynllun hefyd wedi bod yn cydweithio efo Prifysgol Bangor i ddatblygu cwrs Cyfieithu ar y Pryd. Bydd y cwrs yn cychwyn ar ddiwedd Ebrill 06.

Mae'r fenter yn parhau i weithio gyda CGGC (Cyngor Gwasanethau Gwirfoddol Conwy) i ddatblygu cais ar gyfer asiantaeth hyfforddi a chyflogi dwyieithog.

Y Sector Gyhoeddus

Rydym wedi derbyn Cytundeb Lefel Gwasanaeth gan Gyngor Sir Conwy. Mae'r cytundeb yn cwmpasu rhai elfennau o fonitro cynllun iaith Cyngor Sir Conwy.

Plant a Phobl Ifanc

Gweithdai Roc – Cafwyd gweithdai fel rhan o Lanast Llanrwst.

Clwb Plant Pae Penrhyn - Mae clwb chware ar ôl ysgol wedi cychwyn ym Mae Penrhyn mewn partneriaeth ag Ysgol Glanwydden, Ysgol Bodafon, Yr Urdd a TWF. Fe'i ariennir trwy grant Arian i Bawb sy'n cyflogi staff i ofalu am y plant ac un athro i ddysgu rhieni sy'n dymuno dysgu'r Gymraeg.

Clwb Plant Glan Conwy

Cynhaliwyd y Clwb yn ystod haf 2005. Nid oedd y niferoedd yn uchel iawn - rhwng 5 a 7.

Jamboris ar y Cyd â'r athrawon Bro a Twf - Cynhaliwyd 3 jambori ar gyfer cyfnod allweddol 2 yn Llanrwst ac 1 ym Mae Colwyn.

Gigs - cynhaliwyd sawl gig yn ystod y flwyddyn. Yn sgil cynllun Ardal Llanrwst rydym wedi gallu ehangu ein hadnoddau i rannau eraill y Sir gan gynnig arlwy gyson yn Llanrwst.

Lleoliadau eraill lle cynhaliwyd cyngherddau:

Eglwysbach, Llangernyw, Bae Colwyn, Cerrigydrudion

Gweithgareddau Cymdeithasol

Cyrsiau Cyfrwng Cymraeg

Bu cynnydd yn y nifer o gyrsiau Cymraeg a gynhaliwyd yn y sir. Trwy gydweithio â Choleg Llandrillo, Elusendai Llanrwst, Prifysgol Bangor ac Ysgol Dyffryn Conwy.

Sbaeneg (Llanrwst ac Abergele)

Eidaleg (Llanrwst)

Ffrangeg (Llanrwst)

Trwydded Yrru Cyfrifiadurol Ewropeaidd (Llanrwst)

Ceisiwyd cynnal ail ddosbarth Ffrangeg yn Llanfairfechan ond ni ddenwyd niferoedd digonol.

Dramâu - Cynhaliwyd:

Ffernols Lwcus, Ebrill 22.

Y Bonc Fawr, Tachwedd 22/23.

DW2416, Rhagfyr 7 Ysbyty Ifan.

Taflriad Carreg, Mawrth 17 Canolfan Penmaenmawr.

Asado – Barbeciw Archentaidd. Cynhaliwyd noson o adloniant ym Mhenmachno efo Dan Amor, Iwan Llwyd, Geraint Løvgreen a Rene Gruffydd. Llwyddwyd i godi £750 o bunnoedd ar gyfer Ysgol Gymraeg Trelew.

Llanast Llanrwst

Gweler yr Atodiad.

Dysgwyr

Sesiynau Siarad

Rydym yn rhan ariannu tiwtor i fynd i Bencadlys Heddlu'r Gogledd bob dydd Iau i gynnal sesiwn o awr. Mae'r Heddlu hefyd yn rhan ariannu'r cynllun drwy dalu hanner cyflog y tiwtor. Mae'r sesiwn hefyd ar agor i staff Cyngor Sir Conwy sydd ag adeilad y drws nesaf i bencadlys yr Heddlu.

Hefyd bu'r Fenter Iaith yn llwyddiannus yn denu £10,000 ar y cyd â Chwmni cymunedol Cadifan ar gyfer ariannu dosbarthiadau Cymraeg niferoedd isel yn sir Conwy. Bydd y cynllun yn cael ei weithredu dros y ddwy flynedd nesaf.

Sadwrn Siarad

Erbyn hyn cynhelir 5 Sadwrn Siarad yn fisol efo 2 yn rhedeg ar yr un Sadwrn.

Lleoliadau;

Llanrwst, Swyddfa'r Fenter,

Bae Colwyn, Caffi Blod,

Llanfairfechan, Canolfan Cwmni Penllan,

Llansannan, Y Llew Coch,

Llanefydd, Neuadd y Pentref.

Cynllun Pontio (*lle mae siaradwyr Cymraeg yn mynd mewn i 20 munud olaf gwera i gynorthwyo dysgwyr i ymarfer eu Cymraeg*)

Llwyddwyd i sefydlu 3 chynllun pontio yn y Sir.

Llanrwst (Cynllun Ardal)

Llanfairfechan

Cyffordd Llandudno

Pecyn Croeso

Rydym yn cydweithio â'r Bwrdd i ddosbarthu'r argraffiad diweddaraf a'i adnoddau trwy arwerthwyr tai y sir i godi ymwybyddiaeth bobl newydd i'r ardal am y Gymraeg.

Marchnata

Ceir sylw cyson i'r Fenter Iaith yn y wasg - gweler yr atodiad.

Sioeau Sirol

Mae pob sioe yn y sir wedi derbyn gwybodaeth am y Fenter ac rydym yn ymweld â sioeau:

Llanrwst, Eglwysbach a Cherrigydrudion i hyrwyddo gwaith y Fenter.

Cyfarfodydd a Phartneriaid

Sefydlwyd Partneriaeth Sirol i gynorthwyo cydweithio rhwng holl bartneriaid y Bwrdd yn y Sir.

Sefydlwyd Partneriaeth Darparwyr Ieuenctid Cyfrwng Cymraeg

Mynychwyd nifer o gyfarfodydd dros y flwyddyn yn cynnwys;

Mentrau Iaith Cymru (etholwyd Meirion Davies yn Gadeirydd Staff y Mentrau)

Mentrau'r Gogledd, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Yr Urdd, Twf, Gwobr Dug Caeredin, W.C.V.A., CYD, Parc Cenedlaethol Eryri, Heddlu Gogledd Cymru.

Cyrsiau / Hyfforddiant

Bu Meirion Davies a'r cwrs Rheoli Amser a Rheoli Staff.

Bu Teleri Hughes ar gwrs rheoli arian.

Cyfarfod Blynyddol

Cynhaliwyd ail Gyfarfod Blynyddol Menter Iaith Conwy yn Neuadd Goffa Glan Conwy ar Ebrill 27 2006. Er bod y niferoedd a fynychodd yn gymharol isel fe lwyddwyd i ethol swyddogion newydd i'r pwyllgor gwaith..

Ail-etholwyd Wyn Jones yn gadeirydd ac Angharad Booth Taylor yn Drysorydd.

Eirian Jones – Sector Gwirfoddol

Arwel Elias – Ieuenctid

Gwyn Roberts – Materion Staffio

Geraint Fôn – Sector Busnes.

Baudewijn Morgan – Dysgwyr.

I Gloi

Gobeithiwn fod yr adroddiad yma yn dangos bod gan Fenter Iaith Conwy weledigaeth a strategaeth sy'n datblygu o'r un flwyddyn i'r llall.

Yn wir credwn ein bod ar y ffordd i fod yn sefydliad fydd yn gallu gweithredu dros Gonwy gyfan.

Ac eto mae'n waith rhwystredig efo'r adnoddau sydd gan y Fenter ar hyn o bryd. Gallwn ond gobeithio y bydd nifer o'n ceisiadau ariannol yn llwyddiannus er mwyn cynyddu gallu Menter Iaith Conwy i weithredu ei strategaeth yn llawn.

Meirion Davies

(Swyddog Datblygu Conwy)